# Casglu gwybodaeth am dwf a datblygiad pysgod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chasglu gwybodaeth i fonitro twf a datblygiad pysgod. Mae'n cynnwys paratoi a chynnal a chadw cyfarpar mesur a chasglu gwybodaeth a ddefnyddir i bennu twf a datblygiad pysgod. Mae'n gofyn bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithredfnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn casglu gwybodaeth am dwf a datblygiad pysgod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud gwaith yn ddiogel yn unol â'r gofynion perthnasol iechyd a diogelwch
2. paratoi cyfarpar pwyso a mesur i gasglu gwybodaeth gywir am dwf a datblygiad pysgod
3. cael samplau cynrychioliadol o bysgod o unedau cadw tra'n amharu cyn lleied â phosibl ar y pysgod sydd ar ôl
4. anestheteiddio pysgod, lle bo angen, i'r cyfnod cywir o anesthesia
5. defnyddio cyfarpar mesur yn gywir i bennu twf a datblygiad pysgod
6. paratoi a thrafod pysgod mewn ffordd sydd yn lleihau straen ac yn cynnal iechyd a lles
7. cadw cyfarpar mesur mewn cyflwr gweithredol trwy gydol y broses samplu
8. glanhau a storio cyfarpar mesur pysgod ar ôl ei ddefnyddio
9. cynnal lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch
10. darparu gwybodaeth i gadw cofnodion twf a datblygiad pysgod yn unol â ***'r*** gofynion cyfreithiol a gofynion y safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â'r broses samplu
2.
pwysigrwydd casglu gwybodaeth gywir ar dwf a datblygiad pysgod i gynhyrchiant fferm bysgod
3. sut gall anesthetigion gael eu defnyddio i gynorthwyo'r gwaith o gasglu data cywir a lleihau'r straen a achosir i bysgod, a sut i sicrhau bod y maint cywir o anesthetig yn cael ei weinyddu
4. y mesuriadau safonol a ddefnyddir yn gyffredin i nodi maint pysgod unigol
5. pwysigrwydd cynnal a chadw cyfarpar mesur mewn cyflwr gweithredol, yn cynnwys cadw graddnodau yn gywir
6. pwysigrwydd hylendid a bioddiogelwch
7. sut i gasglu samplau cynrychioliadol o bysgod
8. sut caiff asesiadau eu defnyddio i bennu perfformiad er mwyn bodloni targedau cynhyrchu
9. y cyfarpar â'r dulliau a ddefnyddir i samplu ac asesu pysgod
10. y gofynion cyfreithiol a gofynion y safle ar gyfer cadw cofnodion twf a datblygiad pysgod

## Cwmpas/Ystod

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn **pennu twf a datblygiad pysgod** yn cynnwys:

1. magu pwysau
2. newidiadau mewn hyd
3. nodweddion corfforol

Casglu gwybodaeth am dwf a datblygiad pysgod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu7 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; twf; datblygiad |